# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# CYNGOR CYMUNED HARLECH
# 2024/2025

## GAIR GAN Y CADEIRYDD – Y CYNG. CHRISTOPHER BRAITHWAITE

Mae'n bleser cyflwyno trydydd adroddiad blynyddol Cyngor Cymuned Harlech sy'n cofnodi'r gwaith sydd wedi ei gyflawni yn 2024/25 ag yn pwysleisio sut rydym yn parhau I ymgynghori gyda'r gymuned i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y dref. Mae ein nod yn gyfuno'n glir I wneud Harlech yn lle hyd yn oed gwell I fyw ac ymweld. Mae ein gweledigath yn "sicrhau bod Harlech yn parhau I fod yn lle dymunol ac yn groesawgar I bobl o bob oed I fyw – lle mae nhw'n teimlo'n ddiogel, gan gael cyfle I fod yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol, ac yn gallu cymdeithasu a gweithio mewn amgylchedd o safon. Bydd hefyd yn lle sy'n croesawu ymwelwyr ac yn byw gyda nw'n hawdd". Mae'r adroddiad hon yn cynnig darlun o waith y Cyngor yn y flwyddyn diwethaf ac yn dangos sut 'rydym yn ymdrechu I gefnogi preswylwyr o bob oed, busnesau lleol, grwpiau cymunedol, ac ymwelwyr yn yr un modd. 'Rydym yn cydnabod yn llwyr bod y cyfonodau hyn yn parhau I fod yn heriol, ond 'rydym yn parhau I ymrwymo I weithio mewn partneriaeth gyda'n cymuned I wireddu ein gweledigaeth cyffredin ar gyfer Harlech. Er gwaethaf yr anawsterau, mae'r Cyngor wedi llwyddo I gyflawni nifer o brosiectau cyffrous ac amhrisiadwy. Mae wedi bod yn fraint I gadeirio'r Cyngor yn ystod yd cyfnod hwn o adfyfyrio a throsglwyddo. Fel rhan o'n hymrwymiad I dryloywder a gwelliant, comisiynodd y Cyngor ymchwiliad annibynnol I fethiannau ariannol 2022, a ol cyhoeddi adroddiad gan Archwilio Cymru yn mis Tachwedd 2023 yn ymwneud a blwyddyn ariannol 2022/23. Mae'n bleser gennyf adrodd bod, fel canlyniad uniongyrchol I'r cymwysterau hyn, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r holl argymhellion ac wedi cytuno ar gynllun gweithredu clir ar gyfer symud ymlaen. Edrychaf ymlaen at arwain y Cyngor I godi safonau a sicrhau cydymffufiaeth llawn, tra'n cyflawni cyllideb ragfyr cytbwys sy'n gwasanaethau budd gorau Harlech. Mae'r flwyddyn sydd I ddod 2025/26 yn addo bod yn amser o newid cadarnhaol a gwelliant gwirioneddol – un 'rydym yn ei chyrraedd gyda gwefr, cyfrifoldeb ac optimistiaeth.

**Aelodaeth**

Cyng. Christopher Braithwaite (Cadeirydd)
Cyng. James Maxwell (Is-Gadeirydd) – ethol Gorffennaf 2024
Cyng. Reg Chapman – ethol Ebrill 2024
Cyng. Edwina Evans
Cyng. Giles Bentham – ymddiswyddo Chwefror 2025
Cyng. Rhian Corps
Cyng. Ceri Griffiths
Cyng. Gordon Howie
Cyng. Martin Hughes
Cyng. Tegid John – ymddiswyddo Medi 2024
Cyng. Thomas Mort – ymddiswyddo Medi 2024
Cyng. Wendy Williams

Cyng. Simon Turner – ethol Tachwedd 2024
Cyng. Mark Lewis – ethol Tachwedd 2024

Mae dau Gynghorydd yn cynrychioli'r ardal ar Gyngor Gwynedd sef y Cyng. Annwen Hughes ar Cyng. Gwynfor Owen.

Yn anffodus fe ymddiswyddodd dau Gynghorydd o'r Cyngor Cymuned yn mis Medi sef y Cynghorydd Tegid John a'r Cyng. Thomas Mort ag yn mis Tachwedd gafodd y Cyng. Simon Turner a Mark Lewis eu ethol I'r Cyngor. Fe ymddiswyddodd y Cyng. Giles Bentham o'r Cyngor yn mis Chwefror.

**Staff**

Mae gan y Cyngor un aelod o staff, Annwen Hughes, sy'n Glerc a Swyddog Cyllid. Mae hi'n gweithio'n rhan-amser. Gellir cysylltu â'r Clerc drwy e-bost Enquiriescyngorharlech@outlook.com, llythyr I Crafnant, Llanbedr, Gwynedd LL45 2PH neu ffonio 01341241613/07919582741.

**Cyfarfodydd**

Cynhelir cyfarfodydd arferol y Cyngor yn fisol ag eithro mis Awst yn yr Hen Lyfrgell yn y dref ar nos Llun cyntaf pob mis heblaw mis Mai pan gynhelir y cyfarfod ar yr ail ddydd Llun oherwydd gŵyl y banc.

**Safle We**

Oherwydd bod problemau wedi bod hefo gwefan www.cyngorharlech.co.uk y Cyngor Cymuned mae y Cyngor yn y broses o adeiladu gwefan newydd a fydd yn cynnwys rhaglenni cyfarfodydd, cofnodion cyfarfodydd, polisïau a newyddion y Cyngor. Y gobaith yw bydd y wefan newydd yn fyw yn fuan.

**AELODAETH ALLANOL**

Mae'r Cyngor Cymuned yn aelod o Un Llais Cymru, sef y prif gorff cynrychioliadol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Mae'r Cyngor Cymuned yn ethol Aelodau i gyrff allanol eraill, sef Pwyllgor yr Hen Lyfrgell, Pwyllgor y Neuadd Goffa a Chorff Llywodraethol Ysgol Tan y Castell.

**Atebolrwydd**

Mae'r Cyngor Cymuned wedi mabwysiadu cod ymddygiad aelodau a chedwir cofrestr o fuddiannau ar gyfer pob aelod. Mae gofyn i'r Cynghorwyr ddatgelu unrhyw fuddiannau sydd ganddynt am eitemau i'w trafod ar gychwyn bob cyfarfod a bydd y rhain yn cael ei nodi yn y cofnodion.

Mae cyfrifon y Cyngor Cymuned yn cael eu harchwilio gan archwilydd mewnol ac allanol yn flynyddol. Mae'r archwiliad mewnol yn cael ei gynnal gan Adran Archwilio Cyngor Gwynedd, a'r Archwiliad Allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**CYLLID A GWARIANT**

Mae'r Cyngor Cymuned yn gosod cyllideb yn flynyddol ac yn monitro gwariant yn erbyn y gyllideb drwy gydol y flwyddyn ariannol drwy dderbyn adroddiad rheolaidd gan y Clerc. Prif ffynhonnell incwm y Cyngor Cymuned yw'r praesept sy'n cael ei osod yn flynyddol a'i gyflwyno i Gyngor Gwynedd ym mis Ionawr ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Mae'r praesept yn cael ei gasglu ar ran y Cyngor Cymuned gan Gyngor Gwynedd a dyma'r unig ffynhonnell refeniw treth sydd ar gael i Gynghorau Tref a Chymuned. Mae'r broses o benderfynu ar lefel y praesept yn cynnwys paratoi cyllideb ddrafft ar sail sefyllfa ariannol y Cyngor Cymuned drwy ystyried y costau tebygol, cynlluniau ar gyfer prosiectau, pennu swm ar gyfer cyfraniadau - o fewn y canllawiau a gyhoeddir yn flynyddol - ac unrhyw faterion ariannol eraill. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r gwarchodfeydd a ddelir gan y Cyngor Cymuned i sicrhau bod praesept priodol yn cael ei osod. Cafodd lefel y praesept ei gadw ar £70,000 ar gyfer 2024/25. Yn ogystal, derbyniodd y Cyngor Cymuned £6,921.79 o'r Cynllun Parcio 10% gan Gyngor Gwynedd a ymunodd ag ef rai blynyddoedd yn ôl.

Incwm a Gwariant 2024/25

| | Incwm | Gwariant |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Llogau Banc | 1,740.26 | |
| Precept | 70,000.00 | |
| Incwm y Fynwent | 11,606.00 | |
| Rhent Rhandiroedd | 360.00 | |
| Grant Rhandiroedd | 2,500.00 | |
| Llogi cae chwarae Brenin Sior | 150.00 | |
| Ad-daliad incwm meusydd parcio | 6,921.79 | |
| Ad-daliad torri gwair llwybrau | 990.35 | |
| Ad-daliad T.A.W | 1,177.81 | |
| Grant Gardd Blodau Gwyllt | 1,600.00 | |
| Torri Gwair Llwybrau Cyhoeddus | | 2,212.00 |

| | |
|---|---|
| Torri Gwair Cae Chwarae Brenin Sior | 1,792.50 |
| Torri Gwair y Fynwent | 2,150.00 |
| Gwariant yn y Fynwent | 3,270.00 |
| Gwaredu nyth cacwn o’r fynwent | 50.00 |
| Torri coed ger Llwybr Natur | 400.00 |
| Gwaredu Clymog Japan | 350.00 |
| Goleuadau nadolig | 2,143.07 |
| Coed Nadolig | 384.00 |
| 3 Sedd newydd | 1,296.61 |
| Nwyddau toiledau (toiledau castell) | 257.98 |
| Glanhawr toiledau (toiledau castell) | 1,633.73 |
| Rent Toiledau (99 mlynedd) | 99.00 |
| Dwr Cymru (toiledau) | 947.70 |
| Partneriaeth toiledau | 10,000.00 |
| Dwr Cymru (Rhandiroedd) | 45.67 |
| Adnewyddu rhandiroedd | 3,330.00 |
| Pwyllgor Neuadd Goffa | 2,000.00 |
| Pwyllgor Hen Lyfrgell | 2,000.00 |
| Cylch Meithrin Harlech | 2,000.00 |
| Cyfeillion Ysgol Tanycastell | 3,000.00 |
| Ysgol Tan y Castell | 500.00 |
| Eisteddfod Ardudwy | 500.00 |
| Cyfraniad i HAL | 21,897.00 |
| Cyflog y Clerc | 1,764.00 |
| Costau y Clerc | 756.20 |
| Costau Swyddfa | 750.00 |
| Treth ar gyflog y Clerc | 439.80 |
| P.A.Y.E ar lein | 228.00 |
| Llogi Ystafell Bwyllgor | 216.00 |
| Treth Cwrt Tennis | 57.32 |
| Cynnal a chadw cwrt tennis | 168.00 |
| Costau Etholiad | 210.00 |
| Creu wefan newydd | 480.00 |

| | | |
|---|---|---|
| Cynnal y Wefan | | 272.93 |
| Cyfieithydd | | 910.00 |
| Costau Cyfreithiol Tir Penygraig | | 3,200.00 |
| Cyrsiau hyfforddiant | | 453.00 |
| Adroddiad Martin Hanks | | 940.00 |
| Gardd Gymunedol Blodau Gwyllt | | 759.26 |
| Hysbysfyrddau cae chwarae | | 2,098.80 |
| Insiwrant y Cyngor | | 2,082.04 |
| Archwiliad parciau chwarae | | 336.00 |
| Gwagio Biniau cae chwarae | | 821.02 |
| Archwiliad Mewnol 2023/24 | | 336.00 |
| Tal aelodaeth Un Llais Cymru | | 350.00 |
| Amrywiol | | 20.00 |
| Costau Banc | | 104.00 |
| | £96,847.21 | £80,011.63 |

## CYLLIDEB

Presept y Cyngor yw £70,000 a mae yn cael ei glustnodi fel a ganlyn:-

Yn cyfranu £10,000 i Gyngor Gwynedd at gadw’r toiledau cyhoeddus yn agored (rhai yn maes parcio Bron y Graig Isaf a rhai ger tafarn y Queens yn agored drwy’r flwyddyn a rhai yn maes parcio Min y Don yn agored am 6 mis o’r flwyddyn)

Hefyd wedi cyfrannu £21,897.00 yn ystod y flwyddyn ariannol hon I Hamdden Harlech ac Ardudwy (HAL) er mwyn cadw y pwll nofio yn agored.

Ers mis Mehefin mae y Cyngor yn talu I gyfieithydd ddod I gyfarfodydd y Cyngor bob mis, a wedi gwario £910 yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon wedi gwario £257.98 at gynnal y toiledau cyhoeddus ger y Neuadd Goffa, talu £99 I Gyngor Gwynedd fel rhent am 99 mlynedd, ag hefyd mae y Cyngor wedi talu £1,633.73 I ofalwr am lanhau y toiledau hyn yn ddyddiol. Mae y Cyngor yn cau y toiledau hyn dros tymor y gaeaf fel y gallant wneud mwy o waith cynnal a chadw arnynt.

Mae y Cyngor yn gwario swm sylweddol I dorri gwair y fynwent gyhoeddus, parc chwarae Llyn y Felin a Brenin Sior V yn rheoliadd bob pythefnos yn ystod Ebrill I Hydref. Hefyd mae gwair amrywiol lwybrau cyhoeddus yn cael ei dorri beth bynnag ddwy waith y flwyddyn. Y gost o wneud y gwaith hwn I gyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon oedd £6,154.50. Mae y Cyngor hefyd wedi gwario £3,270 ar agor beddi yn y fynwent gyhoeddus a £50 I waredu nyth cacwn.

Yn cyfranu I wahanol fudiadau yn yr ardal yn flynyddol a wedi cyfranu £3,000 I Gyfeillion Ysgol Tan y Castell £2,000 I Ysgol Feithrin Harlech, £500 I Eisteddfod Ardudwy a £500 I Ysgol Tan y Castell tuag at costau tren I fynd a disgyblion I gael gwersi nofio I Borthmadog. Mae £2,000 yr un yn flynyddol yn cael ei gyfranu at gadw y Neuadd Goffa ar Hen Lyfrgell oherwydd bod y Cyngor Cymuned yn Ymddiredolwyr ar y ddau sefydliad hyn. Mae y cyfraniadau hyn yn cael eu cynnwys yn precept y Cyngor.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon mae y Cyngor wedi cyfranu £2,143.07 tuag at y goleuadau nadolig yn yr ardal ag hefyd wedi archeub dwy goeden nadolig ar gost o £384 I’r Cyngor.

Oherwydd bod Aelodau y Cyngor wedi cytuno I gael archwiliad annibynnol wedi ei gario allan ynglyn ar twyll, gofynnwyd I Martin Hanks gario allan y gwaith hwn a fe ddaeth ef I gyfarfod o'r Cyngor yn mis Gorffennaf ag fe ddaeth yn nol yn mis Tachwedd I gyflwyno ei adroddiad I Aelodau y Cyngor. Bydd yr adroddiad yn cael ei lwytho ar wefan newydd y Cyngor unwaith fydd yn fyw. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r argymhellion yn yr adroddiad hon ac adroddiad Archwilio Cymru yn llawn ac mae amserlen wedi'i chreu lle bydd y Clerc ar Cynghorwyr yn cyflawni'r hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni eu rôlau mewn amgylchedd fodern. Bydd yn cymeryd o gwmpas dwy flynedd I gwblhau hyn yn llawn.

## Gwaith y Cyngor a cyfrifoldebau

**Rheoli eiddo**

2 barc chwarae sef Brenin Sior V a LLyn y Felin

Y Fynwent Gyhoeddus

Y Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr Natur Bron y Graig

Llochesi Bws yn yr ardal

Plinth yn Pen y Graig

Yr Hen Ladd-dy

Seddi Cyhoeddus

Rhandiroedd

Y darn tir o flaen yr Eglwys

Hysbysfyrddau

**Gweinyddiaeth**

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel archwiliwr Mewnol 2024/25

Lwfansau – adolygu dim newid, dim taliadau

Gwefan y Cyngor

Cadw asesiad risg.

Cadw cofnod buddiant